

Ein Bro



LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

Ysgol Bro Ddyfi

Gair gan y Pennaeth

Annwyl Rien / Ofalwyr

Yn dilyn blwyddyn brysur arall, rwy'n sicr bod pawb yn edrych ymlaen at wyliau'r haf. Bu'n flwyddyn lwyddiannus i'r ysgol fel y gwelir yn y rhifyn hwn o **Ein Bro**. Yn ogystal â llwyddiannau allgyrsiol mae'n braf iawn canmol disgyblion Blwyddyn 9 a lwyddodd i gael canlyniadau ardderchog eleni. Mae hyn yn deillio o'r penderfyniad i weithredu strategaethau dysgu ac addysgu arloesol. Carwn ddiolch yn fawr i'r athrawon a'r disgyblion am eu

Canlyniadau Diwedd Cyfnod Allweddol 3 / End of Key Stage 3 Results	Disgyblion yn cael Lefel 5+ / Pupils Achieving Level 5+ Percentage		
Pwnc/Subject	2010	2011	2012
Dangosydd Pynciau Craidd / Core Subject Indicator	64%	72%	84%
Cymraeg Iaith Gyntaf / Welsh First Language	80%	82%	88%
Saesneg / English	72%	73%	86%
Mathemateg / Mathematics	75%	80%	86%
Gwyddoniaeth / Science	83%	90%	89%
Cymraeg Ail Iaith / Welsh Second Language	80%	80%	94%
Iaith Dramor Fodern (Ffrangeg) / Modern Foreign Language (French)	64%	67%	79%
Dylunio a Thechnoleg / Design and Technology	81%	83%	95%
Technoleg Gwybodaeth / Information Technology	85%	90%	98%
Hanes / History	80%	85%	91%
Daearyddiaeth / Geography	80%	88%	93%
Celf a Dylunio / Art and Design	80%	80%	96%
Cerddoriaeth / Music	78%	88%	93%
Addysg Gorfforol / Physical Education	85%	85%	92%

gwaith caled.

Mae Leighton Andrews, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn nodi bod tair blaenoriaeth o ran addysg yng Nghymru sef:

1. Codi sgiliau llythrennedd
2. Codi sgiliau rhifedd
3. Cau'r bwloch tldi

Mae achredu sgiliau wedi bod yn rhan bwysig o'r gyfundrefn addysg yng Nghymru ers blynnyddoedd bellach, ac mae datblygu sgiliau yn ganolog i Gwricwlwm 2008.

Yn Ysgol Bro Ddyfi, rydym yn mynd i'r afael â'r agenda hon mewn sawl ffurf, ac yn gweld bod y gwaith rydym yn ei wneud yn arwain at godi safonau. Mae hon yn flaenoriaeth amlwg i ni. Mae parhau i gynnis cwricwlwm llawn o bynciau ynghyd â datblygu sgiliau disgyblion yn rhywbeth rydym yn gweithio'n galed i'w wneud, ac yn gwneud hynny yn llwyddiannus.

CA5 – Y Chweched

Mae'r Fagloraeth Uwch yn cael ei chyflwyno, ac mae'r myfyrwyr fel rhan o'r cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar datblygu sgiliau. Rhan amlwg o'r Fagloraeth Uwch yw cwblhau arholiadau Safon Uwch o fewn y pynciau, ynghyd ag achredu Sgiliau Hanfodol/Allweddol mewn 6 agwedd i lefel 2 a 3 mewn Cyfathrebu, Cymhwysio Rhif, TGCh, Gwella Dysgu a Pherfformiad, Datrys Problem a Gweithio gydag Eraill. Mae'r Fagloraeth Uwch yn rhywbeth mae prifysgolion bellach yn disgwyl ei weld gan fyfyrwyr sy'n gwneud ceisiadau Addysg Uwch, ac mae ar waith ym mwyafrif helaeth ysgolion Cymru erbyn hyn.

CA3 a CA4

Mae'r rhaglen Dysgwr Smart yn CA3 yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a meddwl y disgyblion ac mae'r disgyblion yn ymateb yn dda iawn i'r profiadau a gynigir fel rhan o'r cwrs hwn. O fewn eu pynciau ac mewn gweithgareddau allgyrsiol, gwelir bod y dysgwyr yn gallu ymdrin a sefyllfaoedd dieithr yn llawer mwy annibynnol a hyderus. Fel rhan o'r cwricwlwm, yn ychwanegol i'r disgyblion i fod yn astudio'r pynciau a nodir o ran Cwricwlwm 2008 yn CA3, a'r pynciau TGAU niferus yn CA4 (gyda rhai disgyblion yn astudio hyd at 12 pwnc), mae pob disgybl hefyd bellach yn y broses o gael eu hachredu at lefel 2 yn o leiaf 4 o'r Sgil Hanfodol/Allweddol.

Mae rhai dysgwyr eisoes wedi eu hachredu mewn sawl sgil, ac yn dilyn yr wythnos sgiliau a ddigwyddodd ddechrau mis Gorffennaf, mae pob disgybl bellach yn rhan o'r broses. Bu'r wythnos ddatblygu sgiliau yn wythnos o waith caled i'r disgyblion a'r athrawon ac roedd ansawdd y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr wythnos hon yn rhywbeth y gall pawb a gymerodd ran ymfalchïo ynddo.

Os yw disgybl erbyn diwedd CA4 wedi ei achredu mewn o leiaf 4 Sgil Hanfodol/Allweddol i lefel 2, yna mae hyn yn cyfateb i 3 TGAU. Nid yw'r cymwysterau hyn yn cael eu cwblhau yn lle TGAU, ond yn hytrach yn ychwanegol i TGAU. Maent yn profi sgiliau mwy estynedig na beth brofir mewn arholiadau TGAU, ac maent yn sgiliau mae cyflogwyr yn dymuno i weithwyr fod yn meddi arnynt. Mae disgyblion sydd yn sicrhau achrediad i lefel 2 yn fwy tebygol hefyd o sicrhau C neu well mewn pynciau TGAU, ac felly mae hwn yn gam pendant ymlaen wrth fynd ati i godi safonau.

Yn ystod arolwg Estyn 2008, gosodwyd targed i'r ysgol i sicrhau bod achredu sgiliau yn digwydd, ac mae'n braf gallu dweud bod yr ysgol bellach wedi llwyr ymateb i'r agenda hon, ac yn gwneud hynny gyda chryn lwyddiant. Carwn gloi drwy ddiolch i chi am eich cefnogaeth a dymuno gwyliau braf i chwi.

Dafydd M B Jones



A word from the Headteacher

Dear Parents / Carers

Following another very busy year, I'm sure that everyone is ready for the summer break. The school's extra curricular activities have been very successful as can be seen in this issue of **Ein Bro**. It is also very pleasing to be able to praise academic success: Year 9 pupils have achieved excellent results this year. This can be attributed to the implementation of new and innovative teaching and learning strategies. I would like to thank all the staff and pupils for their hard work.

Canlyniadau Diwedd Cyfnod Allweddol 3 End of Key Stage 3 Results	Disgyblion yn cael Lefel 5 + Pupils Achieving Level 5 + Percentage		
Pwnc/Subject	2010	2011	2012
Dangosydd Pynciau Craidd Core Subject Indicator	64%	72%	84%
Cymraeg Iaith Gyntaf Welsh First Language	80%	82%	88%
Saesneg / English	72%	73%	86%
Mathemateg / Mathematics	75%	80%	86%
Gwyddoniaeth / Science	83%	90%	89%
Cymraeg Ail Iaith Welsh Second Language	80%	80%	94%
Iaith Dramor Fodern (Ffrangeg) Modern Foreign Language (French)	64%	67%	79%
Dylunio a Thechnoleg Design and Technology	81%	83%	95%
Technoleg Gwybodaeth / Information Technology	85%	90%	98%
Hanes / History	80%	85%	91%
Daearyddiaeth / Geography	80%	88%	93%
Celf a Dylunio / Art and Design	80%	80%	96%
Cerddoriaeth / Music	78%	88%	93%
Addysg Gorfforol Physical Education	85%	85%	92%

Leighton Andrews, the Welsh Government Minister for Education has noted three priorities for education in Wales:

1. Improve literacy skills
2. Improve numeracy skills
3. Close the poverty gap.

The accreditation of skills has been a very important part of the education system in Wales for several years, and the development of skills is central to the National Curriculum that was introduced in 2008.

At Ysgol Bro Ddyfi one of our main priorities is improving standards by continuing to provide a full curriculum of subjects as well as developing skills is something we are

working very hard to do, and we are proud to be doing this so successfully.

KS5 - The Sixth Form

In the Sixth Form students study for the Welsh Baccalaureate Qualification (Advanced). An essential part of this qualification is completing the subject A level examinations, as well as gaining accreditation in the Essential/Key Skills in 6 aspects to Level 2 and 3 including Communication, Application of Number, ICT, Improving Learning and Performance, Problem Solving and Working with Others. Universities now expect to see that students have achieved the Welsh Baccalaureate (Advanced) when they start their studies and it is an aspect which is highly valued during the application process. The vast majority of Welsh sixth form students are by now following this course. It is only a minority of schools who do not offer the Welsh Baccalaureate Qualification.

KS3 and KS4

The Smart Learner programme in KS3 focuses on developing the literacy, numeracy and thinking skills of learners and the pupils are responding very well to the experiences offered as part of the course. Within their subjects and extra-curricular activities, we see that learners are much more independent and confident when dealing with new and unexpected situations. As part of the curriculum, the pupils in addition to studying the subjects noted in Curriculum 2008 in KS3, and the numerous GCSE subjects in KS4 (with some pupils studying up to 12 subjects), every pupil is by now in the process of working towards their level 2 accreditation in at least 4 of the Essential / Key Skills.

Some pupils have already received accreditation in several skills, and following the Skills Week which took place at the beginning of July, every pupil is now part of the process. The **Skills Development Week** was a week of hard work for the pupils and teachers, and the quality of work completed during the week was something that everyone who participated can be proud of.

If a pupil by the end of KS4 has received accreditation in at least 4 Essential/Key Skills to level 2, then this is equivalent to 3 GCSEs. These qualifications are not completed instead of GCSE, but in addition to GCSE. They prove skills which are broader than the skills proved at GCSE, and they are skills which employers wish to see in their workers. Pupils who achieve Level 2 accreditation in their Essential/Key Skills are more likely to achieve a C grade or better in their GCSE subjects, and this is a definite step forward in raising standards.

In the Estyn inspection of the school in 2008, the school was given a target of ensuring the accreditation of skills. It is very pleasing to say that the school is responding to this target with so much success.

I would like to take this opportunity to thank you for your continued support and to wish you pleasant summer holidays.

Dafydd M B Jones



Mabolgampau 2012 / Sports Day



Ar ddiwrnod braf ym mis Mai, cynhaliwyd mabolgampau Ysgol Bro Ddyfi 2012. Bu disgyblion yr Ysgol yn cystadlu yn frwdfrydig yn erbyn ei gilydd wrth iddyn nhw gyd geisio sicrhau buddugoliaeth i'w timoedd; Llywelyn, Dewi a Glyndŵr. Cafodd sawl record ei chwalu ar y diwrnod gan gynnwys Richard Whinchurch a dorodd record y 600 medr.



I ddechrau'r diwrnod yn naws y gemau olympaidd, mi gerddodd y timoedd i gyd o amgylch y cae o dan arweiniad capteiniaid y tîm. Llew Bleddyn a Jemma Hennighan oedd capteiniaid Llywelyn, Ffion Thomlinson a Jo Thomas oedd capteiniaid Glyndŵr ac Isaac Gott a Gwawr Jones yn gapteiniaid ar Dewi.



Wedi diwrnod o amrywiol chwaraeon o'r rhedeg i'r neidio, Glyndŵr ddaeth i'r brig gyda'r capteiniaid yn cael codi'r gwpan dros eu tîm. Mi oedd y diwrnod yn un llawn hwyl a lwyddodd i hybu chwaraeon yn yr ysgol a hoffem ddiolch i Mrs Eleri Jones a Mr Aled Myrddin am gynnal y diwrnod a sicrhau bod y diwrnod yn un llwyddiannus tu hwnt.



On a beautiful day in May the school Sports Day was held. All of the school's pupils were strongly competing for the success of their team: Llywelyn, Dewi and Glyndŵr. Many of the school's records were broken this year, one of which was the 600 meters record broken by Richard Winchurch.

To start the day all the teams walked around the field behind their team captains: Llew Bleddyn and Jemma Hennighan were the captains of Llywelyn; Ffion Tomlinson and Jo Thomas were the captains of Glyndŵr and Isaac Gott and Gwawr Jones were Dewi's captains.

After a full day of competing Glyndŵr won the cup! The day was full of fun and good sportsmanship and the activities promoted sports in the school as a whole. We would like to thank Miss Eleri Jones and Mr Aled Myrddin for organising the event and ensuring the day was a success.

Llew Bleddyn

Llew Bleddyn

Ysgol Bro Ddyfi



Llongyfarchiadau i bawb wnaeth lwyddo i gasglu dros 450 pwynt clod eleni. Mae'n wir dweud bod disgyblion Bro Ddyfi yn ddisgyblion sy'n ymdrechu'n galed mewn amrywiol faesydd a braf iawn yw cael canmol y llwyddiannau hynny bob tymor.

Derbyniodd bawb a gasglodd 450 clod dystysgrif gwobrwyo. Dewiswyd 20 enw o'r het i dderbyn cof bach defnyddiol. Gliniadur oedd y brif wobwr eleni a llongyfarchiadau mawr i Robert ac i bawb am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn!

Congratulations to everyone who reached the 450 merits mark this year. It's true to say that we have dedicated and hard working pupils and it's always nice to see them rewarded every term for their hard work.

Everyone who gained 450 merits got a certificate and 20 pupils' names were drawn out of a hat and each were given a memory stick. Every year there is one winner of the big prize which this year was a laptop. Congratulations Robert!

Gwobrwyo Haf 2012 Merit Awards Summer 2012





LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

Ysgol Bro Ddyfi

Gwobrwyo ar ôl cyrraedd 450 clod!

Awarded after reaching 450 merits!





Home Access Plus+

Access your school from Home

Mae modd i chi nawr weld eich ffeiliau Ysgol pan fyddwch chi gartref. Ysgol Bro Ddyfi yw'r unig ysgol yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru sydd yn defnyddio'r rhaglen yma. Mae ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Sut I ddefnyddio Home Access Plus+

It is now possible for you to see your school computer files at home. Ysgol Bro Ddyfi is the only school in Mid and North Wales that offers this service. It is possible for all pupils to access their files from home.

1. Yn gyntaf mae angen i chi fynd i wefan Ysgol Bro Ddyfi. www.broddyfi.co.uk. Yma mae angen clicio ar y linc sydd ar ochr dde'r sgrin.

First you need to go to the school website www.broddyfi.co.uk and click on the blue link on the right hand side. See the picture on the right.



2. Bydd blwch nawr yn ymddangos ar y sgrin fel yr un ar y chwith. Mi fydd angen i chi nawr lenwi'r bylchau gan roi eich enw a cyfrinair eich cyfrif ysgol a gwasgu ok.

Next a box will appear on the screen like the one on the left. You will need to fill in the form with your school account details and click ok.




3. Nawr mae'n bosib i chi glicio ar **Browse My School Computer** lle bydd hi'n bosib i chi weld eich ffolderi a'ch ffeiliau. Yno cewch ddewis rhwng eich ffolder chi, y ffolder **Curriculum Pool** neu ffolder y **shared drive**.

*Now you can click on **Browse My School Computer** where it will be possible for you to access you files. Then you will be able to choose from your folder, the curriculum pool or the shared drive to download files.*

3. I lawr lwytho dogfen o'ch dewis mae angen clicio arni ddwywaith ac mi fydd hi'n bosib i chi ei gweld a'i newid.

To download a document of your choice you can just click on it and it will be there for you to see and edit.



3. Os am roi'r ddogfen nôl ar **Home Access Plus** er mwyn ei gweld ar system yr ysgol cliciwch gyda'ch bys de a dewiswch **upload**.

*To upload your file back to the school system you must right click in the folder you wish to include the document and click **upload**.*

Dyddiadau Pwysig Important Dates

Beth / What?	Pryd/When?
Yr ysgol yn cau dros wyliau'r haf <i>The school breaks for summer holidays</i>	19.7.12
HMS diwrnod di-ddisgybl <i>INSET non-pupil day</i>	20.7.12
Canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfranol <i>A Level and AS Level Results</i>	16.8.12
Canlyniadau TGAU <i>GCSE Results</i>	23.8.12
Cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 11 a'u rhieni drafod dewisiadau ar gyfer y Chweched Dosbarth 9.00 - 3.30 <i>School open for Year 11 pupils and parents to discuss Sixth Form choices</i> 9.00 – 3.30	24.8.12
Tymor newydd yn dechrau i ddisgyblion <i>New term begins for pupils</i>	4.9.12

Bagoloriaeth Cymru Welsh Baccalaureate

Rhoddodd Masara, Raya, Llewelyn a Hollie gyflwyniad i weddill Blwyddyn 12 ar yr Undeb Ewropeaidd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Masara, Raya, Llewelyn and Hollie gave a presentation to the rest of Year 12 on The European Union and the National Assembly for Wales.



Ysgol Goedwig / Forest Schools

Cafodd disgyblion Bl. 7 y cyfle i dderbyn addysg am natur rhwng mis Mawrth a Mai eleni. Manteisiodd rhai o ddisgyblion Bl. 7 ar y cyfle gwych yma a braf oedd clywed iddynt fwynhau'r profiad yn arw hefyd. Dysgwyd am wahanol elfennau o fyd natur yn ogystal â dysgu am ei bwysigrwydd. Cynhaliwyd y gweithgareddau yng ngwarchodfa natur Cae Poeth.

Year 7 had the exciting opportunity of outdoor education between March and May. 12 pupils from Year 7 attended the activities and had a brilliant time learning about how nature works around us and why its so important for our environment. The activities were carried out at the "Cae Poeth" Nature Reserve.



Y Llyfrgell a'r Chweched Dosbarth

Braf yw cael nodi bod nifer uchel o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth yma yn Ysgol Bro Ddyfi eto eleni. Mae rhai disgyblion o ysgolion cyfagos hefyd yn bwriadu dod yma i astudio yn y Chweched Dosbarth. Edrychwn ymlaen at groesawu pob un ohonyn nhw.

Mae'r llyfrgell yn parhau i fod yn un o gorneli brafiaf yr ysgol gan gynnig ardal tawel i'r disgyblion weithio ynddo yn ystod eu cyfnodau Astudio Annibynnol. Mae'n ardal delfrydol hefyd i weddill yr ysgol gael hogi eu sgiliau llythrennedd drwy fachu cornel dawel i ddarllen llyfr. Gellir manteisio ar y system newydd, [eclipse.net](#) hefyd, sef system ar-lein newydd i ymchwilio neu i ysgrifennu adolygiad ar lyfrau maent wedi eu darllen neu ddarganfod pa lyfrau sydd ar y rhestr 10 uchaf yr wythnos honno.



Yn ogystal â hyn gosodwyd gliniaduron yn y 'stafell gefn i'w defnyddio gan fyfyrwyr y Chweched Dosbarth yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnodau Astudio Annibynnol. Dyma gyfnodau buddiol sy'n rhoi'r rhyddid a'r adnoddau y mae myfyrwyr chweched dosbarth eu hangen i gyflawni eu gwaith yn llwyddiannus.

Mae'n bleser gweld y llyfrgell ar ei newydd wedd yn cael defnydd mor dda a braf oedd gweld blwyddyn 11 yn defnyddio eu cyfnod adolygu'n effeithiol yno hefyd.



Sixth Form and the Library

It is good to note that a high proportion of the current Year 11 pupils intend to continue their education at here at Ysgol Bro Ddyfi. A significant number of pupils from nearby schools have also shown an interest in studying here. Every one of them is welcome.

Since knocking a wall down in the library, it's fair to say the library is probably by now one of the most pleasant corners in the school. The atmosphere is conducive to study; research and reading. Laptop computers with access to the school's network have been placed in the small room at the back and are used by Sixth Form Students during their independent study periods. Good use of space is being made. It's also nice to see younger pupils using this small room at the back of the library during break times and using the school's online library: [eclipse.net](#) where pupils can search and write reviews about their favourite books. The online library also shows what the top 10 books of the week are.

In addition to this it's good to see the computer room in the back of the library being used by our hard working sixth formers during their independent study time. The resources are valued by all.



Pecyn Addysg spOILt

Yn yr Ysgol nos Iau 22ain o Fawrth cafwyd lansiad swyddogol pecyn addysg dwyieithog spOILt. Ym mhresenoldeb aelodau o'r Co-operative, sydd wedi noddî'r prosiect o'r dechrau, aelodau o'r cyhoedd a bwrdd llywodraethol yr ysgol, dangoswyd am y tro cyntaf fersiwn Gymraeg y ffilm amgylcheddol am olew. Bellach mae Beth, Bethan, Casey, Daniella, Heini, Holly, Joe, Michael, Owain, Poppy, Rebecca, Sion, Yali ym mlwyddyn 11 ac yn ffarwelio gyda'r prosiect ar ôl dwy flynedd o waith soled. Croeso i unrhyw un gysylltu gyda'r Ysgol am gopi rhad ac am ddim. Mae'r pecyn hefyd ar gael ar wefan yr ysgol www.broddyfi.co.uk

On Thursday 22 March the bilingual education pack accompanying spOILt, the short film documentary about oil made by pupils, was launched. Parents, pupils, governors, the press, as well as Co-operative staff, who have sponsored the project from the beginning, were invited to the launch. After two years of fantastic work Beth, Bethan, Casey, Daniella, Heini, Holly, Joe, Michael, Owain, Poppy, Rebecca, Siôn, Yali bade farewell to the project. The education pack is available for schools and interested parties, and includes a DVD of both English and Welsh versions of spOILt. You can also download the documents from www.broddyfi.co.uk



Clwb Beicio – Biking Club



The mountain Bike club has come up with their new name **DYFI SASQUATCH**.



gradients with swooping beams to huge leaps designed to put a smile on the face of the bravest soul. The group had a fantastic day I even managed to get my wheels off the ground. Thanks to all the lads for their support.

There will be another trip to Nant which will take place over the summer holidays, so anybody interested please talk to Miss Nikki Read, numbers will be limited due to transport issues, any offers of help will be gratefully received.

Recent activity

We are currently working on setting up the club to be a school based community club and the members are working on a presentation based on their vision for the club.

Their vision at the moment consists of a dirt park to be situated on school grounds outings and club rides to include as many types of cycling as possible. When they have finished collating their ideas we will be inviting any interested people to an evening event at the school so anyone wishing to be included in the mailing list please contact me at school nlr@broddyfi-hs.powys.sch.uk

Nant Bwlch yr Haern

Following on from the success of the outing to Llanfyllin. On Thursday 7th June the group took a trip to Nant Bwlch yr Haern near Llanrwst. The day was put on for us by Mike Tong from Welsh cycling so a big thank you to Mike and Welsh cycling. At Nant there is a purpose built mountain bike skills area, ranging from gentle



Olympic Event

*British cycling are supporting local bike clubs to run Olympic events over the school holidays and **Coed y Brenin Dragons** with the help of **Dyfi Sasquatch** and Welsh Cycling are hosting one on WEDNESDAY 15 AUGUST from 10-2 on the school field. There will be track and field events look out for details closer to the date. Any volunteers please contact Miss Nikki Read on nlr@broddyfi-hs.powys.sch.uk*



Grŵp dawnsio **Bro Tastic** yn derbyn sic gan y Gymdeithas Rotary *Bro Tastic Dance group receives a cheque from the Rotary Association*



Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rotary am roddi sic i'r criw dawnsio Bro Tastic a oedd o fudd mawr wrth baratoi at Eisteddfod yr Urdd eleni.

Thank you to the Rotary association for donating and helping the dance group BroTastic with their travelling and costume costs.



Gwefan Pontio / *Transition Website* **www.Pontio.BroDdyfi.co.uk**

Mae Miss Catrin Jones wedi bod yn brysur efo criw o ddisgyblion blwyddyn 7 yn creu gwefan i arddangos taith rhithwir (virtual tour) o'r ysgol. Dyma weithred buddiol er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dyma rai nodweddion y wefan:

- Llythyrau gan ddisgyblion presenol yr ysgol
- Map rhyngweithiol gan ddisgyblion yr ysgol 5X60
- Band YBD Rocers
- Galeri BL7
- Gwybodaeth am ddarllen ym Mro Ddyfi
- Gwybodaeth am ginio am ddim
- Manylion cyswllt yr ysgol

A llawer mwy!

Ewch i'r wefan www.Pontio.BroDdyfi.co.uk am fwy o wybodaeth

Miss Catrin Jones has been busy with Year 7 creating a website which gives an interactive virtual tour of the school. The site will ease the transition of Year 6 to the high school.

Here are some of the features of the website:

- *Letters from the pupils voicing their opinion about the school*
- *Interactive map of the school by the pupils*
- *5x60*
- *YBD Rockers Band*
- *Year 7 Gallery*
- *Information about reading at Bro Ddyfi*
- *Information about Free School Meals*
- *School contact details*

And much, much more!

For more information, go to:
www.Pontio.BroDdyfi.co.uk





dilynwch ni ar **twitter** follow us on **twitter**

Mae Ysgol Bro Ddyfi nawr ar twitter. Os hoffech wybod y newyddion diweddaraf o Ysgol Bro Ddyfi dilynwch ni ar twitter.



Ysgol Bro Ddyfi is now on twitter. If you would like to be informed of the latest news from Ysgol Bro Ddyfi follow us on twitter.

twitter.com/broddyfi

@BroDdyfi

Y Chweched Dosbarth

Os oes diddordeb gyda chi mewn parhau â'ch astudiaethau yn y Chweched Dosbarth Ysgol Bro Ddyfi, mae'n bosibl lawrlwytho'r prospectws oddi ar ein gwefan:

www.broddyfi.co.uk

If you are interested in continuing your studies in the Sixth Form here at Ysgol Bro Ddyfi, you can download the prospectus from our website.

www.broddyfi.co.uk



Taith Sioe Ddillad / *Clothes Show Trip*

Ar y 5ed o Ragfyr mi wnaethon ni ddal y trê'n am wyth y bore i fynd i'r NEC Clothes Show Live yn Birmingham. Roeddem ni i gyd yn edrych ymlaen. Doedd y rhan fwyaf ohonon ni erioed wedi bod yn Birmingham o'r blaen ac felly roeddem ni i gyd yn gyffrous iawn. Pan wnaethon ni gyrraedd roedd y lle yn llawn. Roedd yna stondinau ym mhob man, yn trio gwerthu dillad, colur a phersawr. Roedd pawb yn gweiddi ac yn trio'n perswadio ni i brynu pethau. Roedd yna gystadlaethau dawnsio ar y *Catwalk* i ennill bag *PunkyFish*.

Wedyn mi wnaethon ni weld Lucien Laviscount, sydd wedi bod yn actor ar y gyfres deledu **Waterloo Road** ar BBC1, a hefyd wedi bod ar **Celebrity Big Brother**. Mi wnaeth y merched i gyd sgrechian, yn cynnwys ni o Fachynlleth! Hefyd mi wnaethon ni wyllo band pop o'r enw Eli Prime a grŵp Dawns creadigol a stryd.

Yna aethom i'r brif *Catwalk* lle'r oedd George Lamb yn cyflwyno efo rhai cymeriadau o'r cyfresau teledu **The Only Way is Essex** a **Hollyoaks**. Roedd y gwisgoedd yn hynod o ddiddorol a gwahanol. Roedd yn anhygoel ac rydym yn gobeithio mynd eto'r flwyddyn nesaf!

Briony Rigby Bl 10



On the 5th of December we caught the eight o'clock train for the NEC Clothes Show Live. We were all looking forward. Most of us had never been to Birmingham before so we were very excited. When we arrived the place was full. There were stalls everywhere selling clothes and makeup. Everyone was shouting and trying to sell things to us. There were competitors dancing on the Catwalk to win a PunkyFish bag.

*Afterwards we went to see Lucien Laviscount, who has been an actor on the TV Show **Waterloo Road** on BBC1; he has also appeared on **Celebrity Big Brother**. All of the girls screamed including me! Also we watched a pop band named Eli Prime and a creative dance group.*

*Then we went to the main Catwalk where George Lamb was presenting some of the characters from the TV Show **The Only Way is Essex** and **Hollyoaks**. The clothes and outfits were very interesting and different. The whole trip was brilliant and we are hoping to go again next year!*

Briony Rigby Yr 10



Taith i Lerpwl / Liverpool Trip

Ddydd Mercher, yr 2il o Fai, aethom ni ar drip i Lerpwl fel rhan o'n gwaith cwrs ar gyfer Tecstilau. Roedd rhaid dal y trê'n o Fachynlleth am wyth y bore. Roedd y daith yn ddiddorol oherwydd roedd rhaid i ni newid trenau 3 gwaith, roedd yn ddoniol oherwydd roedd rhaid brysio er mwyn dal y trenau i gyd. Roeddem i gyd yn llawn cyffro oherwydd doedd y rhan fwyaf ohonom heb fod yn Lerpwl o'r blaen.

Aethom yna i weld amgueddfa "The Beatles" oherwydd roeddem yn astudio ffasiwn y 60au. Roedd rhaid i ni wisgo clust ffonau er mwyn clywed hanes am "The Beatles" wrth gerdded o gwmpas yr amgueddfa. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am hanes y Beatles i gyd. Roedd yn drist pan glywsom hanes John Lennon yn marw. Roedd yr amgueddfa yn ddefnyddiol at ein gwaith oherwydd roeddem yn gweld os arddangosfeydd o'r dillad, sef y prif beth roeddem yn edrych arno. Hefyd aethom ni i amgueddfa Fab4, lle gawsom stori'r Beatles trwy gyfrwng y 4D Sensation!. Cawsom hwyl yn gwyllo'r stori a cafodd Miss ei gwlychu! Roedd o mor ddoniol! Aethom i wyllo fe ddwy waith! Cawsom siawns i weld siop y Beatles, roedd yna lawer o bethau ar gael. Roedd yr amgueddfa wedi'n helpu ni i ddeall y 60au yn well. Ar ôl gorffen mynd o gwmpas yr amgueddfa aethom o gwmpas y siopau. Doedd y daith adref ddim yn teimlo mor hir a'r ffordd yna. Roedd pawb wedi blino erbyn diwedd y dydd ond roedd yn ddiwrnod gwerth chweil!

Anna Davies, Blwyddyn 10.



On Wednesday, 2nd of May, we went on a trip to Liverpool as part of our Textiles GCSE course. We had to catch an early train from Machynlleth at 8 in the morning. The Journey was interesting as we had to change trains 3 times which was very funny as we had to rush to catch each train. This was very exciting as most of us had never been to Liverpool before.

We went to see The Beatles Museum because we have been studying the Sixties. We had to wear headphones so we could listen to the history of the Beatles as we walked around the museum. It was very interesting to hear the whole story about The Beatles. It was very sad when we heard about John Lennon dying. The museum was very useful for our work because it brought the clothes of the Sixties alive for us. We also went to another museum called Fab4 where we had a 4D Sensation story of The Beatles. We had fun looking at the story and Miss Jones got soaking wet! It was so funny we had to watch it twice! We also had a chance to go into The Beatles shop where there were many things we could buy. The Museum helped us understand the Sixties much better. After we went around the museum we went to do a bit of shopping. The journey home did not seem as long the journey there. Everyone was tired by the end of the day, but it was worth it.

Anna Davies, Year 10



Ymweliad Dafydd Jones / Dafydd Jones Visit

Cafodd Ysgol Bro Dyfi ymweliad ar y 15/6/2012 gan Dafydd Jones (na, nid y Prifathro!) Blaenasgellwr a oedd yn arfer chwarae i Llanelli Scarlets. Mae hefyd yn gallu chwarae rhif 8.

Pan ganodd y gloch i ddatgan bod gwers dau ar gychwyn roedd pawb wedi mynd i'r ystafell newid ac ar ôl newid rhedodd pawb i'r cae rygbi. Pan welson ni Dafydd Jones yna'n barod i wneud sgiliau rygbi a mynd trwy wahanol dactegau, fe gynhyrfodd pawb!

Yn gyntaf roedd y bechgyn i gyd mewn sgwâr yn jogio ac yn taflu pêl o gwmpas gan drïo peidio cwmpo'r bêl!

Yn ail cawsom ein rhannu i grwpiau o 6 ac roeddem ni yn gwneud 'air pop' at ein gilydd ac roedd yn rhaid i ni gwrdd yng nghanol y sgwâr gan wneud yr 'air pop'.

Yn drydydd roeddem ni wedi aros yn ein grwpiau a gwneud yr un peth ond y tro hwn roedd yn rhaid i ni basio'r bêl i'r dde.

Yn bedwerydd cerddom ni at y weithgaredd nesaf. Roedd yn rhaid i ni sefyll rhwng dau bostyn ac roedd un ohonom efo'r bêl ac roedd un arall yn trio taclo.

Yn olaf cawsom ein rhannu i ddau grŵp ac roedde ni yn trio taclo ein gwrthwynebydd cyn iddo fo sgorio'r cais. Cawsom ni lot fawr o hwyl ac fe ddysgon ni lot fawr o sgiliau newydd.

Diolch yn fawr Dafydd Jones!

On the 15/6/2012 Dafydd Jones came to visit the school. (No! not the Headteacher but the rugby player!). Dafydd Jones plays wing forward and wears shirt number 8.

When the bell rang for lesson 2 we all went to the changing rooms and after changing everyone went to the rugby pitch. When we saw Dafydd Jones there we were all ready to demonstrate our rugby skills on the pitch by going through the tactics.

Firstly, all the boys were in a square jogging and throwing the rugby ball about and trying not to drop the ball.

Secondly, we were separated into groups of 6 and we made "air pops" at each other while meeting at the centre of the square and making the "air pop".

Thirdly, we all stayed in our groups and did the same again but we had to pass the ball to the left.

Fourthly, we walked to the next obstacle where we had to stand between two poles and one person had the ball and the other had to tackle him.

Lastly, we were separated into two groups and we had to tackle the opposition before he scored a try. We all had fun and we learnt a lot of new skills.

Thank you Dafydd Jones!



Prynhawn Olaf Blwyddyn 11 / Year 11 Last Afternoon

Year 11 pupils spent their last afternoon as a group in the Plas, on Thursday 10 May. Mr Dafydd Jones, Headteacher, and Mrs Marie-Helene Thomas, Assistant Head, presented them with their Progress Files and congratulated them on their achievements. Photos were then taken as pupils enjoyed drinks and cakes and danced to music played by our school DJs, Michael Edwards and Siôn Pugh.


It was a pleasure to see this Year 11 enjoy their last afternoon together; they were a great year group, and Mr Dafydd Jones and myself wish them the very best for the future.

*Mrs M-H Thomas.
Head of KS4*

Treuliodd Blwyddyn 11 eu prynhawn olaf cyn yr arholiadau yn y Plas ddydd Iau y 10fed o Fai. Cyflwynodd Mr Dafydd Jones, Pennaeth, a Mrs Marie-Helene Thomas, Pennaeth Cynorthwyol, y ffeiliau cynnydd i'r disgyblion a'u llongyfarch nhw ar eu llwyddianau. Cafwyd cyfle i'r disgyblion a'r athrawon fwynhau'r ysbaid olaf cyn yr arholiadau gyda rhywfaint o luniaeth heb anghofio ein "DJ'S", Michael Edwards a Sion Pugh.

Roedd hi'n bleser gweld Blwyddyn 11 yn mwynhau eu hunain ar eu prynhawn olaf; roeddent yn flwyddyn arbennig o dda. Hoffai Mr Dafydd Jones a minau ddymuno'r gorau i'r disgyblion i'r dyfodol.

Mrs M-H Thomas.
Pennaeth CA4



Newyddion

Mae tymor y gwanwyn wedi bod yn brysur iawn. Cymerodd lawer o ddisgyblion ran yng nghystadleuaethu athletau Powys yn Aberhonddu. Bu rhai yn cymryd rhan yn seremoni cloi Gemau Powys. Cerddodd y disgyblion o amgylch y trac yn lliwiau'r gemau Olympaidd a chreu siap y cylchoedd ar y cyd gyda disgyblion o ysgolion eraill o Bowys.

Ar Fai 28^{ain} helpodd nifer o ddisgyblion efo digwyddiad Olympaidd gyda'r ysgolion cynradd lleol. Perfformiodd ferched 'Brotastic' o flaen 250 o blant ac athrawon cyn mynd ati i geisio dysgu'r ddawns Olympaidd i grwpiau eraill o blant. Diolch yn fawr i'r merched ac i'r chweched dosbarth am eu cymorth drwy gydol y dydd.

Yn olaf hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi mynychu clybiau a chystadlu mewn cysadlaethau 5 x 60 eleni. Dwi'n gobeithio y byddwch yn dangos yr un ymroddiad ac ymdrech y flwyddyn nesaf. Hoffwn ddiolch hefyd i lysgenhadon ifanc yr ysgol am eu cymorth yn ystod fy nghyfnod ym Mro Ddyfi. Diolch yn fawr i bawb.

Aeth 15 o ddisgyblion i Wimbledon i wyllo rhai o'r chwareuwyr tenis gorau yn y byd. Gwelosm ni Serena a Venus Williams yn chwarae doubles. Cyn dychwelyd i'r ysgol cawsom gyfle i ymweld â rhai o atyniadau poblogaidd Llundain.



Here are a group of Year 7 boys who won the 5x60 special awards for basketball and rounders and a group of Year 7 girls after contributing to a show called Glee.



Dyma grŵp o fechgyn a merched o blwyddyn 7, sydd wedi ennill gwobrau arbennig 5x60 am berfformio yn Glee a phêl basg-ed .



Gweithgareddau yr Adran Ddaearyddiaeth

Ddydd Gwener, Gorffennaf 13 –bu disgyblion Blwyddyn 7 yn ymweld â Choed y Brenin, Dolgellau, i "Geocelcio" ac, ar y cyd gyda'r Adran Wyddoniaeth bu'r disgyblion hefyd yn ymchwilio i Fwystfilod.

GeoCelcio

Ystyr Geocelcio yw chwilio am drysor yn yr awyr agored gan ddefnyddio mapiau a theclynnau lloeren sef "GPS". Mae'n ffordd arbennig o dda o gael hwyl yn yr awyr agored! Os rydych yn llwyddo i ddarganfod "celc" (neu stor) mae'n bosib i chi logio eich ymweliad yn y llyfr a chael eich gwobrwyo! Ewch ar safle we Geocaching.com os am ddarganfod mwy. Mae dros 30,000 ohonynt ar draws y DU!!

Ymweliad â Chaerdydd Gorffennaf 17

Rhoddodd yr Adran Ddaearyddiaeth gyfle i ddisgyblion TGAU ymweld ag ardaloedd cyferbyniol y ddinas, er mwyn cwblhau un elfen o'u gwaith cwrs sef Astudiaeth Drefol. Roedd y daith hon yn hynod lwyddiannus y llynedd- gyda 100% o'r disgyblion a oedd wedi cwblhau'r gwaith cwrs (gwerth 15 % o'r marc terfynol) yn derbyn A neu A* am eu gwaith caled.

Gwlad yr Ia 2013

Mae'r Adran Ddaearyddiaeth yn dymuno eich denu i bellteroedd y Byd !!

Ym mis Chwefror, rydym yn gobeithio mynd a chriw o ddisgyblion o Fro Ddyfi ar daith bythgofiadwy i Wlad yr Ia. Mae'r daith ar agor i Ddaearyddwyr TGAU a Safon Uwch.



Geography Department Activities

Friday July 13th, Year 7 visited Coed y Brenin, Dolgellau, to do some "Geocaching" and in partnership with the Science Department, investigated Minibeasts.

Geocaching

Geocaching is a great way of having fun in the countryside. It involves hunting out carefully hidden caches using maps and satellite navigation devices called GPS (Global Positioning System) receivers. If you find a cache, and some are very hard to spot, there are often trade items in them that you can swap and a log book for you to record your visit. Back home you can log your visit onto the internet at Geocaching.com. There are over 30,000 caches in the UK for you to find!

Visit to Cardiff July 17th

The Department organised a visit to the City to carry out fieldwork in various areas of the city, in order to complete one element of their Controlled Assessment (Coursework worth 15%). This trip was very successful last year as 100% of the students achieved an A or A* for their efforts.

Iceland Trip 2013

The Geography Department wants to take you to the extremes of the earth !!!

In February, the department is hoping to take a group of pupils from Bro Ddyfi on a once in a lifetime visit to Iceland. The visit is open to all GCSE and A level Geographers.





**Celf a Chrefft
yr Urdd**

Sir



Unawd Merched BI 10-13

Heledd Besent

1af

Lliwen Jones

3ydd

Unawd Alaw werin

Heledd Besent

1af

Unawd Cerdd Dant

Heledd Besent

1af

Zil Heledd Angell

2il

3ydd Lliwen Jones

3ydd

Unawd Chwythbrennau

Heledd Besent

1af

Unawd allan o sioe gerdd

Heledd Besent

2il

Llefaru unigol BI 10-13

Heledd Besent

1af

Monolog BI 10-13

Heledd Besent

1af



Eisteddfod Ddawns

Dawns Unigol hip

hop/stryd/disgo BI 10-13

Gwawr Jones

2ail




Dawns Unigol hip

hop/stryd/disgo BI 10 – 13


Lliwen Jones

1af



Tarian Perfformiad gorau'r Eisteddfod

Grwp Cyfansoddiad Creadigol Bl 7-13



Llongyfarchiadau i'r Grŵp Creadigol Blwyddyn 7—12 a enillodd y darian **Perfformiad Gorau'r Eisteddfod.**

*Congratulations to the Year 7—13 Creative Dance Group who won the shield for the **Best Performance of the Eisteddfod.***





Gwobr 1af:

Parti Cerdd Dant
Lliwedd Jones
Rhun Bleddyn
Dyfan Jones
Rhian Griffiths

Bl.7-9
Unawd Cerdd Dant
Unawd Chwythbrennau
Unawd Bechgyn
Llefaru unigol

2il Wobr:

Ben Wilde
Lleucu Morgan

Unawd bechgyn
Llefaru unigol


3ydd Wobr

Tiffany Sheen
Tiffany + Tammy
Rhun Bleddyn
Lliwedd Jones

Unawd merched
Deuawd
Unawd Bechgyn
Unawd piano

Wedi perfformio'n dda iawn fel unawd- wyr ac yn haeddu clod :

Molly Sandells
Angharad Taylor
Katie Owen
Scott Capon



Eisteddfod yr Urdd Enillwyr CDT Cenedlaethol 2012



Eisteddfod yr Urdd
Eryri, 04/06 – 09/06

2012



urdd.org

120 - Print Du a Gwyn Bl. 7, 8 a 9

2ail Alis Flemming,

Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn



132 - Printiau Lliw Bl. 7, 8, a 9

3ydd Steffan Hywel Williams


Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn



158 - CAD Bl. 12 a dan 19 oed

1af Elen Evans

Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn




159 - CAD / CAM Bl. 7-9

1af Dafydd Duggan

2ail Angharad Taylor

Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn





Grwp dawns creadigol bl7-9 - 1 af

Grwp cyfansoddiad bl7-13 — 3ydd



Ddydd Gwener, 8fed o Fehefin buom yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri, yn y gystadlaeth dawns greadigol. Y thema gafodd ei osod oedd y gemau Olympaidd. Roedd ein dawns yn cynnwys nifer fawr o symudiadau cymysg o'r traddodiadol i ddawns-feydd amrywiol o gwmpas y byd fel; "Yr Hakka, Dawns Folk, Rock a roll, Hip Hop a Gun Boot".

Pan gyhoeddwyd y byddem yn mynd i'r genedlaethol, sylweddolom y bydd rhaid i ni gystadlu yn erbyn 7 grŵp dawnsio arall. Mi berfformwyd ein dawns ar y prif lwyfan yn y prynhawn wedi i ni ddod yn fuddugol yn y rhag-broffion.

Ar ol disgwyl yn nerfus tu ol i'r llwyfan cafodd y canlyniadau terfynol eu cyhoeddi. Mi lwyddon i gipio'r 3ydd wobr drwy Gymru gyfan ac roeddem yn hapus iawn gyda hynny. Hoffem ddiolch yn fawr i Mrs Eleri Jones am ei chymorth. Llongyfarchiadau hefyd i'r YBD Rocers am llwyddo i gael 2ill! Da iawn chi!

*On Friday the 8th of June, we competed in the Urdd National Eisteddfod by entering the creative mixed dance competition. The theme that was set was **The Olympics**. Our dance routine consisted of traditional dances from each continent, which involved the Hakka, folk dancing, rock and roll, hip hop and gun boot.*

They announced that we had got through the prelims, in which we competed against 7 other dance groups. We then performed our routine on stage later on that afternoon; we were the second group to perform.

After waiting nervously backstage the final results were announced. Overall we had received 3rd place over Wales. We were all thrilled! I hope we have done the school and especially Miss Eleri Jones proud. Congratulations also to the YBD Rockers for receiving 2nd place!





Cog1nio

